Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

## Cartref Preswyl Plas Garnedd

**Cartref Preswyl Plas Garnedd, Ffordd Penymynydd, Llanfairpwllgwyngyll, LL61 5EX**

**01248714640**

**www.plasgarnedd.co.uk**

**Dyddiad yr ymweliad arolygu / Dyddiadau'r ymweliadau arolygu:** 16/07/2025

## Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| Gweithredir gan: | PLAS GARNEDD CARE LIMITED |
| Math o Ofal: | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darpariaeth ar gyfer: | Cartref gofal i oedolion - â gofal personol |
| Lleoedd cofrestredig: | 28 |
| Prif iaith/ieithoedd: | Cymraeg |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: | Mae darparwr y gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl. |

## Graddau:

| | |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Chymorth | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |

## Crynodeb:

Mae'r bobl yn cael canlyniadau llesiant da am eu bod yn hapus yn byw yn y cartref, eu bod yn cyd-dynnu â'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi, ac maent yn canmol safon y gofal a gânt. Mae'r perthnasau yn sôn mewn ffordd gadarnhaol iawn am y gofal a ddarperir a'r ffordd y mae'r rheolwr yn cyfathrebu â nhw. Gall y bobl dderbyn eu gofal yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn unol â'u dewisiadau unigol eu hunain, oherwydd bod llawer o'r gweithwyr gofal yn ddwyieithog.

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd oherwydd bod dewisiadau ar gael iddynt a bod eu dewisiadau yn cael eu parchu. Mae cynlluniau personol ar waith; maent yn cael eu creu gyda'r bobl ac yn cofnodi eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi arweiniad i'r gweithwyr gofal, ac mae hyn yn golygu bod y bobl yn cael gofal da, yn y ffordd y maent am gael eu cefnogi. Caiff gweithgareddau eu darparu a gall y bobl ddewis a ydynt am gymryd rhan ai peidio.

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hiechyd corfforol; mae'r trefniadau rheoli meddyginiaethau yn dda ac mae mesurau rheoli heintiau ar waith i amddiffyn iechyd y bobl. Cysylltir â gweithwyr iechyd proffesiynol i gael cyngor pan fydd unrhyw newidiadau yng nghyflwr y bobl.

Mae amgylchedd y cartref yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yno. Mae'n lân, yn gartrefol, ac mae digon o le. Mae digon o ardaloedd cymunedol addas ar gael. Darperir cyfleusterau diddorol a phleserus yn yr awyr agored hefyd. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal, ond ni chaiff camau gweithredu bob amser eu cymryd mewn modd amserol i ymdrin â'r materion a nodir yn llawn. Mae angen gwella trefniadau'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer goruchwylio'r agwedd hon ar y gwasanaeth a ddarperir.

Mae trefniadau arwain a rheoli da ar waith. Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel; cânt eu cefnogi'n dda yn eu rolau ac maent yn cael hyfforddiant priodol.

# Canfyddiadau:

## Llesiant — Da

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Gall y bobl dderbyn eu gwasanaeth yn Gymraeg, os byddai'n well ganddynt, gan fod y gwasanaeth yn cydnabod y Gymraeg a diwylliant Cymru fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl. Dywedodd y bobl, a'u perthnasau, wrthym fod y gallu i dderbyn eu gwasanaeth yn Gymraeg yn bwysig iddynt. Clywsom y bobl yn siarad Cymraeg â'i gilydd a'r gweithwyr gofal, a dywedodd y bobl wrthym fod hyn yn rhywbeth roeddent yn ei werthfawrogi.

Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol â'r gweithwyr gofal sy'n rhoi cymorth iddynt, ac maent wedi gwneud ffrindiau â phobl eraill sy'n byw yn y gwasanaeth. Roedd pob un o'r unigolion y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal y maent yn ei gael, ac roedd y perthnasau hefyd yn canmol y cymorth a ddarperir. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi cael croeso pan wnaethant symud i mewn i'r cartref yn gyntaf, a bod hyn wedi'i gwneud hi'n haws iddynt setlo ac i deimlo'n gartrefol. Dywedodd y bobl wrthym; *"Staff bendigedig, clên a ffeind", "Staff yn lyfli yma", "Mae nhw dda hefo fi", "Dim byd yn ormod o drafferth".* Gwelsom fod y bobl wedi gwneud ffrindiau, a'u bod yn treulio eu hamser gyda'r ffrindiau hynny ac yn eistedd gyda nhw yn ystod amseroedd bwyd. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod bob amser yn cael croeso pan fyddant yn ymweld.

Darperir rhai gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i'r bobl gymryd rhan mewn gemau, cwisiau, a gweithgareddau ymarfer corff ysgafn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r rhain yn fawr, a'u bod yn edrych ymlaen at y sesiynau ioga cadair. Dywedodd y bobl wrthym yr hoffent weld mwy o weithgareddau yn cael eu darparu gan fod rhai o'r bobl yn teimlo *"The day can feel long sometimes".* Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr a ddywedodd wrthym ei fod yn ceisio cynnig gweithgareddau rheolaidd, ac y bydd yn siarad â'r bobl am yr hyn a fyddai'n well ganddynt.

Mae'r llety yn gartrefol, yn olau ac yn hybu ymdeimlad o lesiant y bobl. Mae pob rhan o'r cartref yn lân, mewn cyflwr da ac yn cael ei chynnal a'i chadw. Mae'r gerddi yn hygyrch a cheir ardaloedd eistedd yn yr awyr agored er mwyn i'r bobl allu treulio amser y tu allan, os byddant am wneud hynny. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch ar waith, ac ar y cyfan mae'r cartref yn darparu amgylchedd diogel i'r bobl fyw ynddo. Gwelsom nad oes gwaith bob amser yn cael ei gwblhau'n brydlon i ymdrin â materion diogelwch a gaiff eu nodi. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu.

Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i fod yn iach. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o gyflyrau iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl pan fyddant yn symud i mewn. Mae cynlluniau'r bobl yn adlewyrchu sut y caiff pob cyflwr ei reoli. Dywedodd perthnasau wrthym fod iechyd eu haelod o'r

teulu wedi gwella ers symud i mewn i'r cartref, gydag un unigolyn yn cael cymorth i allu cerdded eto. Darperir deiet cytbwys, ac mae dewis o fwyd ar gael.

## Gofal a Chymorth **Da**

Mae'r meddyginiaethau yn cael eu rheoli, eu storio a'u rhoi'n ddiogel. Dywedodd y rheolwr a'r gweithwyr gofal wrthym fod y newidiadau diweddar a wnaed i'r prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y gwasanaeth wedi arwain at welliannau. Gwelsom fod y bobl yn cael eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd, sy'n eu cefnogi i reoli eu cyflyrau iechyd ac i gadw'n iach. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel ac mae trefniadau ar waith i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu harchebu a'u rhoi mewn modd amserol. Mae polisïau meddyginiaeth ar waith sy'n cofnodi sut y caiff meddyginiaethau eu rheoli yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar feddyginiaethau, a chaiff eu cymhwysedd ei brofi gan y rheolwr.

Mae'r rheolwr yn creu cynlluniau personol gyda'r bobl a'u perthnasau. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cynnwys safbwyntiau'r bobl o ran y ffordd y maent am gael eu cefnogi a'u trefn ddewisol o ddydd i ddydd. Cadarnhaodd y bobl fod y gweithwyr gofal yn parchu eu dewisiadau, a'u bod yn ymwybodol o'u hoff bethau a'u cas bethau unigol. Mae'r cynlluniau personol yn seiliedig ar gryfderau; maent yn cofnodi'n glir yr hyn y gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain fel y gall pob unigolyn barhau i fod mor annibynnol â phosibl. Defnyddir asesiadau risg i reoli risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl, a chânt eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd yn dilyn unrhyw newidiadau.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau diogelu da ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel rhag niwed. Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio materion diogelu yn briodol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y gwasanaeth a'u bod yn teimlo y gallant godi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.

Mae'r mesurau rheoli heintiau yn dda yn y cartref ac o ganlyniad mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn yn dda rhag heintiau. Darperir hyfforddiant ar reoli heintiau a gwelsom fod y gweithwyr gofal yn dilyn arferion da wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae trefniadau ar waith ar gyfer storio gwastraff clinigol yn ddiogel a chaiff archwiliadau rheoli heintiau eu cwblhau gan y rheolwr bob dydd.

## Yr Amgylchedd

**Da**

Caiff cymorth ei ddarparu mewn amgylchedd sy'n lân, yn gartrefol ac mewn cyflwr da. Ni all unigolion sy'n ymweld â'r cartref fynd i mewn i'r cartref heb awdurdod gan y staff. Mae hyn yn amddiffyn y bobl sy'n byw yn y cartref.

Mae dewis o lolfeydd cymunedol ac ystafelloedd bwyta ar gael er mwyn i'r bobl allu dewis ble yr hoffent dreulio eu diwrnod a ble yr hoffent gael eu prydau. Gwelsom fod yn well gan rai o'r bobl gael eu prydau yn eu hystafelloedd eu hunain, ac roedd hyn yn cael ei barchu. Mae'r ystafelloedd ymolchi a'r cawodydd yn hygyrch, a chaiff cyfarpar codi ei ddarparu os bydd angen y cymorth hwn ar y bobl.

Caiff ystafelloedd y bobl eu hunain eu personoli ag eitemau o'u cartrefi. Gwelsom fod pob ystafell yn wahanol ac yn adlewyrchu bywyd teuluol a diddordebau pob unigolyn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus gyda'u hystafelloedd a'u bod yn teimlo'n gyfforddus ynddynt.

Mae gardd hygyrch ac ardal decin ar gael, er mwyn i'r bobl allu treulio amser yn yr awyr agored os dymunant. Gwelsom fod yr ardd mewn cyflwr da a bod seddi ar gael. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd wrthym eu bod yn gwerthfawrogi fod ardal awyr agored bleserus ar gael iddynt, yn enwedig pan fyddant yn dod ag aelodau iau o'r teulu i ymweld. Gwelsom y bobl yn mynd am dro o gwmpas yr ardaloedd awyr agored, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau gallu parhau i fod yn gorfforol weithgar.

Mae gwiriadau iechyd a diogelwch ar waith; ond ni chaiff camau gweithredu bob amser eu cymryd yn brydlon i ymdrin â rhannau o'r amgylchedd y nodir eu bod yn peri risg i ddiogelwch y bobl. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rheolwr yn cwblhau gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd a bod dyfeisiau nwy a dyfeisiau trydanol yn cael eu gwasanaethu fel sy'n ofynnol. Caiff y larwm tân ei brofi bob wythnos, a chaiff y system ei gwasanaethu fel sy'n ofynnol. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod gwaith yn mynd rhagddo i ymdrin â risgiau a oedd wedi cael eu nodi'n flaenorol yn yr amgylchedd, a rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau dros yr wythnosau nesaf. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Da**

Ar y cyfan, mae gan y darparwr drefniadau da ar waith i oruchwylio ansawdd y gofal a ddarperir ac i sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn ddidrafferth. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ac ymdrin ag unrhyw feysydd o'r gwasanaeth y mae angen eu gwella mewn ffordd ragweithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn ffurfiol bob tri mis ac yn cynnal adolygiad o'r gwasanaeth a ddarperir, gan gofnodi'r canfyddiadau mewn adroddiad. Gwelsom nad yw darparwr y gwasanaeth bob amser yn ymateb mewn modd amserol i wella diogelwch yr amgylchedd, pan fydd risgiau wedi cael eu nodi. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu.

Mae prosesau recriwtio cadarn ar waith, ac felly gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod y gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi wedi cael eu hasesu fel unigolion sy'n addas ar gyfer eu rolau. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff y gweithwyr gofal hyfforddiant priodol a sesiynau goruchwylio un i un a gaiff eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r lefelau staffio yn ddigonol i ddiwallu anghenion y bobl, a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael gofal a chymorth pan fydd eu hangen arnynt, y rhan fwyaf o'r amser. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac maent yn mwynhau eu gwaith. Gwelsom fod staff cegin a staff cadw tŷ yn cael eu cyflogi, sy'n golygu bod y gweithwyr gofal yn gallu canolbwyntio ar gefnogi'r bobl.

Gofynnir i'r bobl am eu barn o ran y datblygiadau yr hoffent eu gweld yn y gwasanaeth. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau ar waith i gynnal adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gwasanaeth, ac mae hyn yn cynnwys siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd, a chomisiynwyr. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal archwiliad o gwympiadau fel rhan o'r adolygiad, ac mae'n edrych ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i achosion o unigolion yn cwympo. Gwnaethom drafod hyn â'r Unigolyn Cyfrifol gan esbonio y dylai'r archwiliad hefyd ystyried unrhyw themâu, patrymau, a thueddiadau sy'n codi o'r cwympiadau i gyd, er mwyn sicrhau y caiff unrhyw gamau posibl sydd eu hangen i wella'r prosesau ar gyfer rheoli cwympiadau eu nodi a'u hystyried.

# Meysydd i'w gwella a nodwyd

Lle byddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ond na fyddwn wedi canfod bod y bobl yn wynebu risg uniongyrchol neu sylweddol, byddwn yn eu trafod â'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, byddwn yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

Mae'r tabl/tablau isod yn dangos y maes/meysydd gweithredu â blaenoriaeth a/neu'r maes i'w wella/meysydd i'w gwella a nodwyd gennym.

| Crynodeb o'r Meysydd i'w Gwella | Dyddiad nodi |
|---|---|
| Ni chaiff camau gweithredu bob amser eu cymryd mewn modd amserol i leihau risgiau iechyd a diogelwch a nodwyd yn yr amgylchedd. Sicrhau y caiff camau gweithredu eu cymryd yn brydlon i ymdrin â risgiau hysbys i iechyd a diogelwch ac i'w lleihau, er mwyn amddiffyn y bobl rhag niwed cymaint â phosibl. | 16/07/25 |
| Mae angen gwella trefniadau'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth fel eu bod yn cynnwys sicrhau bod yr amgylchedd mor ddiogel ag y gall fod i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn golygu nad yw'r bobl bob amser yn cael eu diogelu'n llawn rhag risgiau posibl i'w diogelwch. | 16/07/25 |

**Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.**

This report is also available in English

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*